Cartrefi Conwy

CREU MENTER
CREATING ENTERPRISE




# Adroddiad Blynyddol Gweithgareddau a Pherfformiad

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022


CONWY

# Cynnwys ...


Rhagair y Cadeirydd 1

Croeso'r Prif Swyddog Gweithredol 2

Creu cymunedau cynaliadwy 3

Darparu cartrefi o safon 7

Gwneud y mwyaf o'n heffaith gymdeithasol 13

Cydweithio a chreu 19

Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd 23

Trawsnewid ein defnydd o dechnoleg 27

Datblygu gweithlu arloesol 29

Crynodeb ariannol 33

Arweinyddiaeth a llywodraethu 34

# Rhagair gan Gareth Jones, Cadeirydd Ein Bwrdd

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad blynyddol eleni fel Cadeirydd newydd Bwrdd Cartrefi Conwy.

Gafaelais yn yr awenau oddi wrth ein Cadeirydd blaenorol, Jim Illidge, ym mis Ebrill 2022 ar ôl bod yn rhan o Fwrdd Cartrefi Conwy am naw mlynedd. Mae’n ddiogel dweud bod gen i esgidiau mawr i’w llenwi ond rydw i wrth fy modd i fod yn rhan o daith Cartrefi Conwy ac i gael y cyfle i gefnogi’r grŵp i gyflawni’r uchelgeisiau a nodir yn ein cynllun busnes pum mlynedd. Wedi byw yn lleol yn Llandrillo-yn-Rhos ers dros ugain mlynedd, rwy'n frwd dros greu cymunedau i fod yn falch ohonynt.

Mae pandemig Covid wedi bwrw cysgod dros y tair blynedd diwethaf ac mae wedi bod yn gyfnod heriol i’n cydweithwyr a’n tenantiaid. Rwyf mor falch o fod wedi gweld sut mae timau Cartrefi Conwy a Creu Menter wedi addasu’n gyflym a chamu i’r adwy i gynnig cymorth amhrisiadwy i’n tenantiaid mwyaf bregus.

Fodd bynnag, rydym yn awr yn wynebu ansicrwydd pellach wrth i ni fynd i’r afael ag argyfwng costau byw digynsail a fydd, heb os, yn cael effaith sylweddol ar ein tenantiaid a’n cymunedau ehangach. Bydd y gwasanaethau a ddarperir trwy ein timau Creu Dyfodol a Chymorth Ariannol yn hanfodol wrth gefnogi ein tenantiaid yn ystod y cyfnod anodd hwn. Y llynedd, mi wnaeth ein tîm Cymorth Ariannol alluogi tenantiaid i sicrhau £533,000 mewn budd-daliadau ychwanegol, gan ddarparu cymorth allweddol pan oedd ei angen fwyaf.

Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn gweld galw aruthrol am fwy o dai fforddiadwy yn yr ardal. Yn ôl adroddiad gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Amcangyfrifon o’r Angen am Dai Ychwanegol yng Nghymru' bydd angen rhwng 1,000 a 1,400 o gartrefi newydd y flwyddyn (hyd at 2024) ar ogledd Cymru i gwrdd â'r galw presennol am dai. Er mwyn helpu i ateb y galw digynsail hwn, rydym wedi dechrau ar raglen ddatblygu uchelgeisiol a fydd yn gweld 1,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu dros y deng mlynedd nesaf.

Rydym hefyd yn cofleidio dulliau modern newydd o adeiladu a fydd yn ein galluogi i adeiladu cartrefi sy’n wirioneddol effeithlon o ran ynni ac yn darparu arbedion ariannol sylweddol i’n tenantiaid.

I gloi, mae hon wedi bod yn flwyddyn gyffrous a llwyddiannus i’r grŵp, ac rwy’n edrych ymlaen yn fawr at weld yr hyn y gallwn ei gyflawni dros y deuddeg mis nesaf. Un peth rwy’n sicr ohono, mae gennym y sgiliau, yr agwedd, yr ymrwymiad a’r angerdd iawn yn ein timau i barhau i greu cymunedau i fod yn falch ohonynt.



# Croeso gan Andrew Bowden, Prif Weithredwr y Grŵp

Mae wedi bod yn flwyddyn gofiadwy a llwyddiannus arall i ni yn Cartrefi Conwy a Creu Menter. Er gwaethaf gweithredu o dan amgylchiadau anodd iawn trwy gydol y pandemig, rydym yn gobeithio y gallwn yn awr ddechrau gweld golau ar ddiwedd y twnnel.

Rydym wedi dysgu llawer o'r pandemig, ac mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa gref ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym wedi adnabod cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol, gan gynnwys ffyrdd newydd, mwy effeithlon ac ystwyth o weithio a fydd yn cryfhau'r Grŵp ymhellach.

Eleni rydym wedi datblygu ein Strategaeth Gynaliadwyedd newydd sy'n amlinellu ein hymrwymiad i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2035. Mae hon yn dasg enfawr a fydd yn gofyn am fewnbwn o bob maes o'r busnes; o ddatblygu cartrefi ynni effeithlon gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern i gyflwyno cerbydau trydan i'n fflyd. Agorwyd ein ffatri newydd (mwy) Datrysiadau Modiwlaidd Creu Menter yn y Rhyl eleni a fydd yn cael ei defnyddio i adeiladu'r cydrannau ar gyfer cartrefi safonol tai goddefol ledled gogledd Cymru, tra'n creu swyddi a sgiliau y mae mawr eu hangen ar bobl leol.

Ond rydym yn mynd ymhell y tu draw i ddarparu cartrefi; ein gweledigaeth yw creu cymunedau i fod yn wirioneddol falch ohonynt. Mae ein hymrwymiad i gynyddu ein heffaith gymdeithasol hefyd wedi cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf gyda chreu Strategaeth Effaith Gymdeithasol newydd. Mae effeithiau'r pandemig ar ein cwsmeriaid a'n cymunedau ehangach wedi bod yn sylweddol, ac rydym wedi ymateb mewn amrywiaeth o ffyrdd; o gynnig arian a chymorth lles i'n tenantiaid mwyaf anghenus i ddarparu cyllid i grwpiau cymunedol lleol ffynnu.

Fel nododd Gareth yn ei ragair, rydym yn wynebu cyfnod anoddach wrth i'r argyfwng costau byw effeithio ar bob rhan o'n bywydau, ac fe welwch o'r adroddiad hwn ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi ein tenantiaid, ein cymunedau a'n cydweithwyr drwy gydol yr amseroedd helbulus hyn. O roi amrywiaeth o gyfleoedd i denantiaid gael y sgiliau a'r hyder i ddod o hyd i waith ystyrlon i sicrhau bod ein rhent bob amser yn parhau i fod yn fforddiadwy.

Rydym hefyd yn brysur yn paratoi ar gyfer newidiadau deddfwriaethol eleni, gan gynnwys Deddf Rhentu Cartrefi Cymru a Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd sy'n cael eu cyflwyno dros y misoedd nesaf. Bydd y newidiadau hyn, er eu bod yn cael eu croesawu, yn sicr yn cael effaith enfawr ar y ffordd rydym yn gweithio, a byddwn yn parhau i ddatblygu partneriaethau arloesol, y tu mewn a'r tu allan i'r sector tai, i'n cefnogi i fodloni'r gofynion newydd hyn. Rwy'n hyderus bod gennym y sgiliau a'r agwedd gywir ar draws ein timau i'n harwain drwy'r cyfnod hwn o newid.





# Creu cymunedau cynaliadwy

Bydd ein cartrefi mewn cymunedau lle mae pobl eisiau byw a gweithio, yn awr ac yn y dyfodol

Mae cymuned gynaliadwy yn gymuned lle "gall pawb ffynnu a llwyddo – maent yn llefydd bywiog a chynhwysol ac yn cefnogi ein hymdeimlad o les unigol a chyffredinol. Mae'n ymwneud â phobl, lleoedd a'r berthynas rhyngddynt"

Mae **89%** o denantiaid yn meddwl bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian

OEDDECH CHI'N GWYBOD?

**Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr nad yw rhent aelwydydd yn fwy na 29% o'r incwm isaf yn yr ardal**

## Erbyn 2025 bydd gennym:

- Gostyngiad o 75% mewn troi allan
- Bodlonrwydd tenantiaid yn y chwartel uchaf
- Bodlonrwydd bod rhent yn rhoi gwerth am arian yn y chwartel uchaf

## Mae ein Swyddogion Cefnogi Tenantiaid yn trawsnewid bywydau

Derbyniodd tenant sy'n byw mewn llety dros dro ac a oedd yn cael trafferth gyda thasgau bob dydd yn dilyn strôc gefnogaeth un i un gan un o'n Swyddogion Cefnogi Tenantiaid anhygoel eleni. Roedd hyn yn cynnwys:

- Trefnu taliad Cronfa Cymorth Dewisol
- Help i ddiweddaru eu Credyd Cynhwysol
- Eu helpu i wneud cais am gar symudedd
- Cefnogaeth gyda bancio ar-lein a threfnu sefydlu eu cyfrif rhent ar-lein
- Eu cefnogi i reoli eu biliau

"Dydw i ddim wedi gallu delio â'r sefyllfa ar fy mhen fy hun gan fod llawer i ddelio ag ef, roeddwn yn teimlo wedi fy llethu'n llwyr i ddechrau. Ond unwaith i ni ei rannu'n dasgau llai, a chael gwybod y byddwn yn gallu cael cefnogaeth a chymorth roeddwn yn teimlo'n llawer gwell"

# Gwella gwasanaethau sydd o bwys i chi

## Mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon

Mae tipio anghyfreithlon, ynghyd â rhai tenantiaid sydd ddim yn cael gwared ar eu sbwriel yn briodol, yn enwedig mewn ardaloedd storio biniau cymunedol, yn parhau i fod yn broblem mewn rhai o'n cymunedau. Rydym wedi sefydlu grŵp rheoli gwastraff amlasiantaeth i edrych ar atebion effeithiol ar gyfer delio â hyn



Eleni fe wnaethom ganolbwyntio ein hymdrechion ar Lys Cwstenin ym Mochdre gan fod y preswylwyr wedi bod yn profi cynnydd mewn tipio anghyfreithlon, storfeydd bin ddim yn cael eu defnyddio yn y ffordd gywir ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Buom yn gweithio ochr yn ochr â nhw i ddod o hyd i ffyrdd o wella lle roeddent yn byw ac i adennill ymdeimlad o falchder yn eu cymuned. Gan weithio gyda'r preswylwyr rydym wedi creu gardd ddiogel gyda mynediad gwell.

Mae hyn, ochr yn ochr â gosod ffensys diogel gyda gwell gwyliadwriaeth naturiol a neilltuo mannau diogel ar gyfer biniau gyda storfa ar gyfer pramiau a beiciau, wedi adfywio’r gymuned leol a’u grymuso i greu eu man chwarae eu hunain a man diogel i blant ymarfer eu sgiliau beicio.

## Mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Rydym eisiau i bawb deimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a dyna pam rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n tenantiaid i fynd i'r afael ag ystod eang o ymddygiad annerbyniol a gwrthgymdeithasol o niwsans sŵn a thipio anghyfreithlon i ymddygiad bygythiol. Byddwn yn parhau i ymchwilio a chasglu tystiolaeth i ddeall achosion sylfaenol problemau er mwyn dod o hyd i'r atebion mwyaf priodol i'n tenantiaid. Nid oes un dull sy'n addas i bawb. Gan weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau partner eraill, ni fyddwn yn oedi cyn gweithredu lle bynnag y bo modd.

**Mae**

**74%**

**o denantiaid yn fodlon ar sut rydym yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol**

# Cadw mewn cysylltiad

Mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn gwrando ar brofiadau ein tenantiaid, yn dysgu ac yn gwella. Mae hyn yn golygu darparu nifer o ffyrdd i gysylltu â ni, gwneud ein gorau i ddatrys ymholiadau y tro cyntaf, bod yn gymwynasgar a chefnogol, a darparu proses gwyno glir a syml ar gyfer yr adegau pan na fyddwn yn ei chael hi'n iawn.

Eleni lansiwyd ein swyddogaeth sgwrsio 'gofyn cwestiwn' newydd ar ein gwefan i alluogi tenantiaid i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir yn gyflym ac yn hawdd ar unrhyw adeg.



## Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid

Roeddem yn falch iawn o gyrraedd y Safon Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid am y bumed flwyddyn yn olynol yn 2021. Mae’r safon hon yn asesu ein cynnig a’n perfformiad ar draws pum maes allweddol a byddwn yn parhau i ddefnyddio’r rhain fel meincnod i wella profiad ein cwsmeriaid yn barhaus. Mae'r achrediad hwn yn brawf o'n hymrwymiad parhaus i roi anghenion ein tenantiaid wrth galon popeth a wnawn.

## Dysgu a gwella

Ein nod yw darparu gwasanaethau gwych, ond rydym yn gwybod nad ydym bob amser yn gwneud pethau'n iawn. Mae dysgu o gwynion yn un ffordd i ni wella profiad y cwsmer. Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno galwad ddilynol ar gyfer tenantiaid sy'n dweud wrthym eu bod yn anhapus gyda'n gwasanaeth. Mae hyn yn ein galluogi i adnabod a dysgu o'r hyn a aeth o'i le fel nad yw'n digwydd eto. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp 'adolygu a dysgu' cwynion newydd sy'n dadansoddi'r holl adborth a dderbyniwyd gan ein tenantiaid ac yn nodi'r hyn sydd angen i ni ei wneud i wella ein gwasanaethau'n barhaus.

Roedd

**93%**

o denantiaid yn gweld cydweithwyr yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt

**77%**

o gwynion cam 1 eu datrys o fewn 10 diwrnod gwaith

Mae

**90%**

o denantiaid yn fodlon ar ba mor hawdd yw hi i ddelio gyda Cartrefi Conwy



# Darparu cartrefi o safon

**Byddwn yn darparu cartrefi fforddiadwy a hygyrch o ansawdd uchel, yn y lleoedd y mae eu hangen**

Mae argyfwng tai, nid yn unig yn sir Conwy, ond ledled Cymru a'r DU, ac mae gennym ran fawr i'w chwarae wrth fynd i'r afael â hyn. Mae ein sefyllfa ariannol gref wedi ein galluogi i roi'r cyllid ar waith i ddarparu o leiaf 100 o gartrefi newydd fforddiadwy ac ynni effeithlon wedi'u dylunio'n dda bob blwyddyn o 2022/23 ymlaen a'n nod yn y pen draw yw creu 1,000 o gartrefi newydd erbyn 2030.

## Am ein cartrefi

Er mai tai cymdeithasol sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'n stoc tai, dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi amrywio ein portffolio i gynnwys amrywiaeth o gartrefi fforddiadwy gan gynnwys deiliadaethau canolradd, rhentu i berchen a rhent y farchnad. Ein nod yw creu ystod o opsiynau tai fforddiadwy a diogel i bawb.


## Erbyn 2025 byddwn wedi:

**Adeiladu o leiaf 350 o gartrefi newydd**

**Buddsoddi £47 miliwn pellach yn ein cartrefi presennol**

**Sicrhau boddhad tenantiaid gyda'n cartrefi yn y chwartel uchaf**

## Nifer y cartrefi ar 31 Mawrth 2022





Adeiladwyd
**85**
o gartrefi newydd eleni

Mae
**621**
o gartrefi newydd ar y gweill

Mae
**68**
o gartrefi newydd yn cael eu datblygu

**£985,000**
o gyllid grant datblygu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darparu cartrefi newydd

Buddsoddiad o
**£20.77 miliwn**
mewn datblygu ac adfywio

# Rhodfa Phil Evans (Stad Glanrafon gynt) – Llanrwst



Yn anffodus, roedd stad Glanrafon yn Llanrwst wedi cael enw drwg ac nid oedd llawer o'r cartrefi (a adeiladwyd yn y 1960au) bellach yn addas i'r diben. Yn 2020 fe wnaethom benderfynu cychwyn ar raglen adfywio ar raddfa fawr a oedd yn cynnwys adnewyddu rhai adeiladau'n llwyr a dymchwel bloc mawr o fflatiau deulawr.

Mae'r rhain bellach wedi'u disodli gan gartrefi teuluol o'r radd flaenaf wedi'u hadeiladu i safon tai goddefol (passivhaus).

Adeiladwyd y fframiau pren ar gyfer y cartrefi hyn yn ein ffatri Datrysiadau Modiwlaidd Creu Menter ein hunain.

Rydym hefyd yn creu ystod o fannau awyr agored newydd i deuluoedd eu mwynhau am flynyddoedd lawer. Edrychwn ymlaen at groesawu ein tenantiaid newydd i Rhodfa Phil Evans, (sydd wedi'i henwi er cof am ein gofalwr annwyl a fu'n gofalu am yr ystad am flynyddoedd lawer), yn ddiweddarach yn 2022.

**Cyn ...**







Rydym nid yn unig yn adeiladu cartrefi newydd o’r radd flaenaf, rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn cynnal ein cartrefi presennol...

Mae **94%** darparu cartrefi o safon

Mae **11,824** o achosion gwaith trwsio wedi'u cwblhau

Roedd **86.1%** o achosion gwaith trwsio yn gywir y tro cyntaf

Cwblhawyd **98.9%** o achosion gwaith trwsio brys o fewn 24 awr

## Iechyd a diogelwch

**100%** cydymffurfiad

- Nwy
- Trydanol
- Tân (asesiad risg)
- Legionella
- Asbestos

"Mae fy nghegin newydd wedi trawsnewid fy mywyd. O'r dechrau i'r diwedd roedd pawb a gymerodd ran mor ystyriol - fe wnaethon nhw wrando ar yr hyn roeddwn ei angen ac fe wnaethon nhw'n sicr gyflawni! Efallai bod pethau bach fel gostwng cypyrddau fel fy mod i’n gallu cyrraedd y silffoedd uchaf yn hawdd yn ymddangos yn ddibwys, ond maen nhw wedi gwneud byd o wahaniaeth i mi. Roedd yr hyn roeddwn i'n meddwl oedd yn mynd i fod yn anghyfleustra yn bleser. Allwn i ddim bod yn hapusach nac yn fwy diolchgar."



Mrs Davies, Llandrillo-yn-Rhosa


CWRT YSGOL
MAELGWN



# Gwneud y mwyaf o’n heffaith gymdeithasol

Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r effaith gymdeithasol y mae ein gwaith yn ei chael wrth gyflawni ar gyfer y rhai sydd ei angen fwyaf

Mae sicrhau ein bod yn cael yr effaith gymdeithasol fwyaf posibl ym mhopeth a wnawn wedi bod yn bwysig i ni erioed. Eleni buom yn gweithio ochr yn ochr â'n tenantiaid i ddatblygu Strategaeth Effaith Gymdeithasol newydd a dywedodd 552 o denantiaid wrthym beth y dylem ganolbwyntio arno dros y tair blynedd nesaf.

Er mwyn cyfeirio ein hadnoddau at y mannau lle mae eu hangen fwyaf, rydym wedi nodi pedwar maes blaenoriaeth ...

- Cyflogadwyedd a chynhwysiant digidol
- Mynd i'r afael â thlodi
- Iechyd a lles
- Adeiladu cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol

**OEDDECH CHI'N GWYBOD?**

**552**

**o denantiaid yn rhan o lunio ein Strategaeth Effaith Gymdeithasol newydd**



# Cyflogadwyedd a chynhwysiant digidol

Rydym am gefnogi pobl drwy ddileu rhwystrau i waith gan gynnwys datblygu sgiliau a hyder i'w galluogi i gael cyflogaeth gynaliadwy. Rydym am helpu pobl i ddod o hyd i waith sy'n diwallu eu hanghenion, darparu cymorth i ddod o hyd i swyddi o ansawdd uwch sy'n talu'n well, cael profiad gwaith a gwella eu sgiliau digidol. Dyma grynodeb o'r hyn rydym wedi'i gyflawni eleni...

**11**
Recriwtiwyd 11 o denantiaid diwaith drwy ein Hacademi Gyflogaeth

**90**
Cafodd 90 o bobl eu cefnogi i gyflogaeth

**240**
Cafodd 240 o bobl gymorth chwilio am waith

**25**
Cafwyd 25 o leoliadau Kickstart gyda ni a'n partneriaid

**47**
Rhoddodd 47 o wirfoddolwyr 2,732 awr o'u hamser

**74**
Darparwyd 74 o gyfrifiaduron tabled i denantiaid sydd wedi'u heithrio'n ddigidol

## Stori Lucy...

Ar ôl bod â diddordeb erioed mewn iechyd a diogelwch yn y gweithle, defnyddiodd Lucy yr amser sbâr annisgwyl a roddodd cyfnodau clo Covid iddi i gwblhau cymhwyster Bwrdd Arholi Cenedlaethol mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (NEBOSH).

Gwirfoddolodd Lucy gyda thîm Iechyd a Diogelwch Cartrefi Conwy i ennill profiad ymarferol, tra'n gweithio'n agos gyda'n Cydlynydd Gwirfoddolwyr i adeiladu ei phroffil LinkedIn cyn sicrhau cyflogaeth fel Cynghorydd Iechyd a Diogelwch Cynorthwyol gyda Cartrefi Conwy.



# Mynd i'r afael â thlodi

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd i symud tuag at sail ariannol mwy sefydlog  er mwyn ffynnu a byw'n dda. Rydym am chwarae rhan gadarnhaol a rhagweithiol wrth sicrhau bod tenantiaid yn wybodus, yn hyderus ac yn gallu rheoli eu harian.

Mae un o bob pedwar o bobl Cymru yn byw mewn tlodi. Mae mynediad at gymorth cyllidebu a rheoli arian yn un o’r ffyrdd y gallwn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, hirdymor i fywydau ein tenantiaid.

**£533,000**

Sicrhawyd £533,000 mewn incwm ychwanegol i'n tenantiaid drwy ein tîm Cymorth Ariannol

**78**

Cafodd 78 eitem o ddodrefn eu rhoi i deuluoedd mewn argyfwng

**330**

Elwodd 330 o deuluoedd o ostyngiadau pris mewn 65 o fusnesau lleol trwy ein cynllun Creu Teyrngarwch

**50**

Dosbarthwyd 50 o brydau Nadolig i'r tenantiaid mwyaf anghenus

## Lledaenu ysbryd y Nadolig

Roeddem am ddod â rhywfaint o hwyl y Nadolig i'n tenantiaid oedrannus sydd ar eu pen eu hunain yn ystod cyfnod y Nadolig. Y syniad y tu ôl i'r fenter oedd ein bod yn derbyn rhoddion rhodd gan ein cydweithwyr hynod hael Cartrefi Conwy a sicrhau eu bod yn cyrraedd person hŷn sy'n byw ar ei ben ei hun ar gyfer y Nadolig. Rhoddwyd dros 50 o anrhegion gan gydweithwyr a phrynwyd rhai eraill gan ddefnyddio arian grant. Bu disgyblion Morfa Rhiannedd yn Llandudno hefyd yn garedig iawn yn gwneud cardiau Nadolig i gyd-fynd â phob anrheg. Dosbarthwyd dros 100 o roddion i denantiaid a oedd yn byw ar wahân, cyn belled â Dolwyddelan a Cherrigydrudion.



# Iechyd a lles

Rydym am gefnogi pobl i fyw bywydau hapus, iach a helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd trwy wella iechyd meddwl a chorfforol.

## Annibynnol Fi

Lansiwyd y gwasanaeth Annibynnol Fi ym mis Medi 2021 er mwyn cynnig gwasanaeth cwmnïaeth unigryw i drigolion Conwy sy'n eu cefnogi i fyw bywyd hapus, iach ac annibynnol. Mae'r gwasanaeth am dâl hwn yn cynnig ychydig o help llaw i gwsmeriaid gyda thasgau bob dydd fel siopa, gweithgareddau cymdeithasol a mynychu apwyntiadau ysbyty.


> **Rwy'n teimlo'n well ynof fy hun, mae'n hyfryd mynd allan a chyfarfod â phobl. Rwy'n cael hwyl fawr gyda Tom.**

> **Mae'r tîm AF yn gefnogol iawn ac yn ofalgar iawn. Mae mor braf gallu mynd allan eto. Mae fel chwa o awyr iach.**




## Taith Gelf i Ferched

Ym mis Rhagfyr 2021, mynychodd pum tenant Cartrefi Conwy y cwrs deuddydd 'Taith Gelf i Ferched' a gynhaliwyd gan y tîm Cynnwys y Gymuned ac a gyflwynwyd gan yr artist lleol, Lisa Lochhead. Cyfaddefodd y rhan fwyaf o'r tenantiaid nad oeddent yn siŵr iawn beth i'w ddisgwyl o'r cwrs, ond roedd y teitl wedi codi eu chwilfrydedd ac roeddent yn barod i roi cynnig ar rywbeth newydd. Erbyn yr ail ddiwrnod, roedd yr adborth a gafwyd gan y grŵp yn eithriadol, gyda'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n falch o'r hyn roeddent yn ei gyflawni ac yn ei greu, a bod y profiad wedi'u gadael yn teimlo bod pwysau wedi'i godi oddi ar eu hysgwyddau. Dywedodd un tenant, "Mi wnes i ddeffro'n llawn cyffro i ddod yn ôl y bore yma".



## Adeiladu cymunedau gweithgar ac ymgysylltiol

Rydym am wneud cymunedau Cartrefi Conwy yn lleoedd mwy deniadol a bywiog i fyw ynddynt trwy helpu i adeiladu cymunedau ymgysylltiedig, gweithgar a ffyniannus. Mae wedi bod yn wych gallu mynd allan i’n cymunedau a chyfarfod wyneb yn wyneb â’n tenantiaid eleni ac rydym yn bendant wedi gwneud iawn am yr amseroedd rydym wedi’u methu yn ystod y pandemig. Dyma beth rydym wedi bod yn ei wneud...

**404**

404 o weithgareddau/ digwyddiadau ar gyfer 435 o denantiaid unigol (gyda chyfanswm o 1,392 yn bresennol)

**32**

32 o grwpiau cymunedol i gyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau yn eu cymunedau

**90**

90 o sesiynau chwarae yn ein cymunedau

**100**

Derbyniodd 100 o deuluoedd becynnau chwaraeon

## Gwneud y mwyaf o’n heffaith gymdeithasol drwy ein cadwyn gyflenwi

Rydym yn gweithio'n galed iawn i wneud y mwyaf o effaith gymdeithasol pob punt rydym yn ei gwario. Eleni fe wnaethom gyflogi Cydlynydd Gwerth Cymdeithasol a'i rôl yw gweithio ochr yn ochr â'n cyflenwyr a'n darparwyr gwasanaeth i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o wneud y mwyaf o'n gwerth cymdeithasol a chefnogi ein tenantiaid.

Rydym hefyd wedi gweithio ochr yn ochr â nifer o grwpiau cymunedol ac elusennau i ddarparu dros £37,000 mewn nawdd a rhoddion, tra’n creu cyfleoedd newydd i’n tenantiaid gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol.

**OEDDECH CHI'N GWYBOD?**

Rydym wedi derbyn **£7,000** mewn rhoddion gan ein cyflenwyr i gefnogi digwyddiadau cymunedol





# Cydweithio a chreu

**Byddwn yn cydweithio ag eraill ac yn creu cyfleoedd newydd er mwyn helpu i yrru'r busnes yn ei flaen**

Er mwyn i ni allu ateb y galw am fwy o gartrefi fforddiadwy a pharhau i gynnig cymorth pwrpasol i'n tenantiaid sydd ei angen fwyaf, mae'n bwysig ein bod yn chwilio am ffyrdd newydd o weithio; o fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ffrydiau incwm masnachol newydd i ddatblygu partneriaethau newydd i wneud y mwyaf o'n pŵer prynu.

# Erbyn 2025 byddwn wedi:



**Adeiladu 350 o gartrefi modiwlaidd newydd ar gyfer landlordiaid cymdeithasol yn ein Ffatri Datrysiadau Modiwlaidd Creu Menter**



**Darparu cartrefi a gwasanaethau newydd ar y cyd ag eraill**



**Cynyddu ein hincwm o weithgareddau ar wahân i weithgaredd craidd i'r busnes**

### Dyma rai o'r mentrau rydym yn gweithio arnynt mewn partneriaeth ag eraill ...

## Gweithio'n well gyda'n gilydd

Mae ein memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda ClwydAlyn yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r cytundeb hwn yn ein galluogi i archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a chreu arbedion effeithlonrwydd a gwerth am arian. Eleni fe wnaethom ganolbwyntio ar:

- sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn yr hirdymor tuag at ddatgarboneiddio ein cartrefi
- Darparu cymorth cyflogadwyedd i denantiaid ClwydAlyn trwy ein Hacademi Gyflogaeth a'r rhaglen Kickstart
- Sut y gall ein timau cynnal a chadw a gwaith wedi'i gynllunio weithio'n agosach a rhannu adnoddau
- Gweithio ar y cyd ar gynlluniau datblygu newydd



# Datrysiadau Pren Creu Menter



Mae ein Ffatri Adeiladu Modiwlaidd wedi hen sefydlu ei hun ac yn adeiladu cartrefi safonol Passivhaus ar gyfer amrywiaeth o gleientiaid Awdurdod Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol.

Ochr yn ochr â chynhyrchu cartrefi modiwlaidd, mae'r ffatri hefyd bellach yn cynhyrchu amrywiaeth o gynhyrchion pren gan gynnwys paneli ffensys a distiau gwe metel modern.

Mae'r rhain yn cael eu defnyddio gan gontractwyr Cartrefi Conwy a Creu Menter. Rydym hefyd wedi sicrhau contract gyda Travis Perkins i werthu'r cynhyrchion hyn i adeiladwyr tai a chymdeithasau tai eraill.

Eleni fe wnaethom gwblhau datblygiad o bedwar byngalo ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ac rydym yn gobeithio adeiladu 75 yn o gartrefi ar gyfer ystod o gleientiaid ar draws gogledd Cymru dros y 12 mis nesaf. Yn 2021 symudwyd ein ffatri i safle mwy yn y Rhyl er mwyn ehangu gweithrediadau datrysiadau modiwlaidd Creu Menter ar raddfa fwy a chyflymder uwch.

Rydym hefyd wedi adeiladu'r fframiau pren ar gyfer 22 o gartrefi ynni effeithlon newydd yn Ninbych ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych.






# Gweithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru

Fe wnaethom agor ein Hyb Cymunedol mewn cydweithrediad â Trafnidiaeth Cymru eleni. Mae'r adeilad hwn, sy'n eiddo i Trafnidiaeth Cymru, yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a arweinir gan y gymuned ar gyfer Creu Menter a Cartrefi Conwy ac mae partneriaid amrywiol wedi defnyddio'r cyfleuster hwn i gynnal sesiynau fel Dŵr Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Cyngor ar Bopeth, Gwasanaeth Ieuenctid Conwy, Cymru Gynnes, Mind, a Chymorthfeydd Cyngor ar Ddyledion lleol.




## Cartrefi Calon

Sefydlwyd Cartrefi Calon yn 2019 i ddatblygu cartrefi newydd sy'n cael eu gwerthu am bris y farchnad. Mae unrhyw elw dros ben a wneir drwy'r fenter ar y cyd hon yn cael ei fwydo yn ôl i Cartrefi Conwy er mwyn adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy.



Yn ystod y flwyddyn hon cwblhawyd ein safle cyntaf o 11 o gartrefi yn Middlewich, Swydd Gaer, ac rydym bellach yn symud ymlaen drwy'r broses gynllunio gyda'n hail safle mwy yng Nglan Conwy a fydd yn darparu 107 o gartrefi. Bydd 33 o'r eiddo hyn yn cael eu caffael gan Cartrefi Conwy fel cartrefi fforddiadwy y mae mawr eu hangen yn yr ardal.




# Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

**Byddwn yn creu cartrefi a gofodau mwy ecogyfeillgar a chynaliadwy, gan leihau ein hôl troed carbon ar yr un pryd**

Mae’r amgylchedd adeiledig yn cyfrannu at 40% o gyfanswm ôl troed carbon y DU ac fel landlord dros 4,000 o gartrefi mae gennym gyfrifoldeb enfawr i ymateb i’r argyfwng hinsawdd a chwilio am ffyrdd arloesol o leihau ein heffaith amgylcheddol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu uchelgais i fod yn sero net erbyn 2050 a’n nod yw cyflawni hyn erbyn 2035.

Eleni rydym wedi datblygu Strategaeth Gynaliadwyedd newydd ar gyfer y grŵp sy’n amlinellu sut y gallwn fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd gyda’n gilydd. Mae’r strategaeth yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol:



Ein cartrefi a’n cymunedau



Ein sefydliad a sut rydym yn gweithio

## Mae’r strategaeth yn nodi ein haddewid i’r canlynol ...

- bod yn sefydliad sydd wedi’i ddatgarboneiddio’n llawn erbyn 2035
- sicrhau bod gan bob un o’n cartrefi newydd sgôr A EPC ac erbyn 2028 bydd gan bob un o’n cartrefi presennol sgôr B EPC
- rhoi’r gorau i osod boeleri nwy o 2025
- sicrhau bod gan ein fflyd allyriadau sero erbyn 2025
- gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan domestig ym mhob cartref addas erbyn 2027
- ailgylchu 90% o’n gwastraff busnes erbyn 2027



## Dulliau modern o adeiladu

Mae defnyddio 'dulliau modern o adeiladu' drwy ein rhaglen ddatblygu newydd yn hanfodol er mwyn i ni allu gwireddu ein huchelgeisiau cynaliadwyedd.

Rydym eisoes ar y daith hon gan ein bod wedi sefydlu ein ffatri Datrysiadau Modiwlaidd Creu Menter sy’n cynhyrchu cartrefi carbon-niwtral. Trwy ddefnyddio’r dulliau modern hyn o adeiladu ar raddfa ac ar draws ein datblygiadau newydd, byddwn yn lleihau ein hôl troed carbon yn ogystal â gostwng costau tanwydd i’n tenantiaid. Bydd hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth i’n tenantiaid a’n cymunedau lleol wrth i ni lenwi’r bwlch sgiliau ar gyfer y ffyrdd newydd hyn o adeiladu cartrefi.




## Dechrau ar ein taith ôl-osod

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed clir ar gyfer datgarboneiddio'r holl gartrefi erbyn 2050.

Eleni rydym wedi ymuno â 'Rhaglen Ôl-osod Optimeiddiedig' newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn yn ystyried y deunyddiau y gwneir ein cartrefi ohonynt, y ffordd yr ydym yn gwresogi ac yn storio ynni a'r ffordd y caiff ynni ei gyflenwi i'n cartrefi. Yna gallwn ddefnyddio'r data hwn i wella effeithlonrwydd ynni'r cartref trwy amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnolegau ynni-effeithlon newydd fel gosod pympiau gwres newydd, systemau ynni deallus a phaneli solar. Eleni fe wnaethom ddechrau ar waith ôl-osod mewn 12 o gartrefi ac edrychwn ymlaen at ddysgu o'r rhaglen hon i ymgorffori gwelliannau ynni-effeithlon trwy ein gwaith gwella arfaethedig dros y blynyddoedd i ddod.

Ein nod yn y pen draw yw i bob un o’n cartrefi gael sgôr EPC o B o leiaf erbyn 2028.

## Bydd gan bob un o’n cartrefi sgôr EPC o B o leiaf erbyn 2028



## Eleni, rydym wedi cymryd rhai camau bach i gyflawni’r uchelgeisiau a nodir yn ein Strategaeth Gynaliadwyedd:

Rydym wedi gosod 180 o foeleri cyfuniad nwy gradd A

Rydym wedi gosod 8 pwmp gwres ffynhonnell aer

Rydym wedi uwchraddio goleuadau ynni mewn dros 300 o gartrefi

Rydym wedi gosod inswleiddiad wal allanol mewn 12 cartref

Rydym wedi gosod 6 phanel solar PV gyda systemau storio batri

## Trawsnewid y gofod agored yng Nghwrt Ysgol Maelgwn

Rhoddodd y cynllun tai £5 miliwn hwn fywyd newydd i gyn ysgol gynradd Edwardaidd restredig ac mae bellach yn darparu llety arbenigol a thai fforddiadwy i bobl leol. Roeddem eisiau creu mannau awyr agored a fyddai’n dod â’r gymuned ynghyd tra’n gweithio ochr yn ochr â chyn-ddisgyblion yr ysgol i ddysgu sgiliau newydd a chymryd rhan yn eu cymuned.

Rhoddwyd y dasg i’r disgyblion o greu gwaith celf yn darlunio perlysiau, ffrwythau a blodau sydd bellach wedi’u plannu yn yr ardd. Yna cafodd eu gwaith celf ei drawsosod ar deils sydd bellach yn rhan o ardd synhwyraidd lle gall preswylwyr eistedd a mwynhau'r gofod am flynyddoedd i ddod.





## Mannau lleol i natur

Eleni rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Eryri ar eu cynllun 'Lleoedd Lleol i Natur' i gefnogi natur a bioamrywiaeth mewn cymunedau gwledig o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Mae’r gwaith hwn wedi cynnwys datblygu cyfleoedd ar gyfer blodau gwyllt, plannu bylbiau, coed, blychau gwenoliaid, goleuadau awyr dywyll a glaswelltiroedd dolydd.


Buom hefyd yn arwain ar gynllun plannu coed yn Llandudno a oedd yn cynnwys plannu 80 o goed blodeuol brodorol a ddewiswyd yn benodol i gefnogi pryfed peillio, cynyddu bioamrywiaeth a darparu amwynder gweledol i breswylwyr. Fe wnaethom hefyd ailgyflenwi dros 500 o lwyni yn yr ardal.



# Trawsnewid ein defnydd o dechnoleg

Byddwn yn defnyddio technoleg fel galluogwr er mwyn caniatáu i ni weithio'n gallach a gwella'r hyn rydym yn ei wneud

## Trawsnewid ein defnydd o dechnoleg




Lansiwyd ein strategaeth TGCh yn 2020 sy’n amlinellu sut y byddwn yn defnyddio technolegau digidol i wella’r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Yn ystod pandemig Covid, fe wnaethom drawsnewid sut rydym yn gweithio dros nos, gan alluogi ein cydweithwyr yn y swyddfa i weithio o unrhyw leoliad. Rydym wedi dysgu cymaint ers hynny, ac wrth i ni ddychwelyd yn araf i 'normal' rydym wedi cofleidio technolegau newydd i greu gweithlu gwirioneddol ystwyth.

## Galluogi gweithio hybrid ac ystwyth ...

Eleni lansiwyd amrywiaeth o wahanol dechnolegau i alluogi ein gweithlu i weithio o unrhyw le. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno system bwcio desg newydd o'r enw Kadence, sy'n galluogi cydweithwyr i gadw lle neu ddesg yn unrhyw un o swyddfeydd neu hybiau Cartrefi Conwy trwy ap hawdd ei ddefnyddio. Rydym hefyd wedi moderneiddio ein swyddfeydd i alluogi cyfarfodydd hybrid.






**44,072**
Taliadau digidol

**£8.5 million**
Gwerth o daliadau digidol

**69%**
Caiff taliadau eu gwneud yn ddigidol

**905**
Tenantiaid yn defnyddio porth FyCartrefi



# Datblygu gweithlu arloesol

**Byddwn yn datblygu diwylliant sy'n rhoi'r hyder i'n cydweithwyr greu syniadau newydd a rhoi cynnig ar bethau newydd**

Ein cydweithwyr yw ein hased pwysicaf ac mae'n hollbwysig ein bod yn cefnogi, meithrin a datblygu ein gweithlu er mwyn parhau i gynnig gwasanaeth gwych.

Fel llawer o fusnesau, derbyniodd ein cydweithwyr yn y swyddfa gyfarpar addas yn gyflym er mwyn gallu gweithio gartref yn ystod y pandemig. Wrth i ni ddychwelyd i 'normal' roeddem am wneud yn siŵr y gallem barhau i gynnig ymagwedd hybrid at waith er mwyn cefnogi ein busnes, ein timau a'n cydweithwyr yn well.

## Gweithlu ystwyth

Eleni fe wnaethom ddechrau ar raglen o welliannau i'n prif swyddfa yn Abergele, yn ogystal â darparu 'hybiau' gweithio ar draws y sir. Yn gyntaf, symudodd ein cydweithwyr Creu Menter o'u canolfan ym Mochdre i'n prif swyddfa, sydd wedi ein galluogi i weithio'n agosach ar draws y ddau sefydliad.

Mae'r swyddfa wedi'i hadnewyddu gydag ardaloedd penodol ar gyfer gweithio mewn tîm, ardaloedd tawel a chyfarfodydd hybrid. Gall pob cydweithiwr archebu man gweithio sy'n addas iddyn nhw trwy ein ap archebu gofod newydd.

## Datblygu ein pobl

Mae'n bwysig bod gan bob un ohonom y sgiliau cywir i wneud ein gwaith yn dda a'n bod yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i bob cydweithiwr. Mae rhai o'r cyfleoedd rydym wedi'u darparu eleni yn cynnwys y canlynol:

**Cwblhaodd 166 o gydweithwyr hyfforddiant arweinyddiaeth**

**Cymerodd 30 o gydweithwyr ran mewn hyfforddiant diffyg atgyweirio**

**Cwblhaodd 9 o gydweithwyr brentisiaethau tai**

**Dechreuodd 4 cydweithiwr eu cymhwyster tai proffesiynol CIH Lefel 4 a Lefel 3**

**Rhoddwyd cyfle i bob rheolwr gymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl**

**Cwblhawyd 1197 o gyrsiau hyfforddi cyfryngau diogelwch**

**Cefnogwyd 4 cydweithiwr i ennill Prentisiaeth crefft gan gynnwys gwaith plymio a gwresogi, trydanol, gwaith saer a phaentio ac addurno**

## Arweinyddiaeth a Cartrefi

Lansiwyd ein rhaglen arweinyddiaeth uchelgeisiol ddwy flynedd yn ôl er mwyn i ni feithrin rhinweddau arweinyddiaeth gwerthfawr ar draws y sefydliad cyfan, gyda 166 o gydweithwyr yn cymryd rhan yn y cwrs hyd yma. Rydym bellach yn bwriadu dod â'r dysgu hwn yn fewnol er mwyn i ni allu teilwra'r rhaglen ar gyfer ein holl newydd-ddyfodiaid ac adeiladu gallu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.

**"Mae'r rhaglen hon wedi rhoi cipolwg go iawn i mi ar sut rydym yn meddwl amdanom ein hunain a sut mae eraill yn ein gweld. Er efallai ein bod yn wahanol, gallwn adnabod ac addasu i'r ffordd rydym yn rhyngweithio â'n gilydd, yn dibynnu ar y sefyllfa."**



# Iechyd a lles cydweithwyr

Mae'n bwysig iawn i ni fod ein cydweithwyr yn ffynnu ac rydym yn cynnig ystod o opsiynau i gefnogi eu hiechyd a'u lles; o gynllun gofal iechyd wedi'i ariannu sy'n helpu cydweithwyr i dalu costau gofal iechyd bob dydd i roi 'diwrnod lles' ychwanegol i bob cydweithiwr i ddweud diolch am eu gwaith caled parhaus.

Mae ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn cynnig gwasanaeth ffôn gwerthfawr i'n cydweithwyr ar ffurf cymorth a chefnogaeth ymarferol y gellir cael gafael arnynt pan fo angen. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ac mae'n cynnwys chwe sesiwn cwnsela wyneb yn wyneb cyfrinachol i gydweithwyr sydd eisiau cymorth ychwanegol.

Eleni, fe wnaethom lansio arolwg iechyd a lles newydd i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cydweithwyr yn dod ymlaen ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o'u cefnogi.

Gan weithio gyda Strategaeth Ddinesig y Rhyl fe wnaethom ofyn nifer o gwestiynau i'n holl gydweithwyr yn ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Rydym wedi cymryd y wybodaeth werthfawr a gasglwyd i greu cynllun llesiant newydd ar gyfer y grŵp sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Iechyd meddwl a lles personol
- Lles corfforol
- Lles proffesiynol
- Lles ariannol

Rydym hefyd wedi adnewyddu a thyfu ein rhwydwaith hyrwyddwyr iechyd meddwl presennol, cynnig sgrinio iechyd a lles i bob cydweithiwr a datblygu safle mewnrwyd newydd yn llawn offer, awgrymiadau a gwybodaeth bwysig i gefnogi iechyd a lles cyffredinol.



Anrheg lles i gydweithwyr yn ystod cofid



Codi arian i Fanc Bwyd Conwy

**Dangosir y symiau mewn miliynau o £'s**
**Gallwch weld ein cyfrifon cyfunol ar ein gwefan**

## O ble mae'r arian yn dod ...

| | |
|---|---|
| Rhent a thaliadau gwasanaeth | 21.153 |
| Grant Cefnogi Pobl | 0.567 |
| Grantiau LlC (Gwaddol a grantiau refeniw LlC) | 2.802 |
| Grantiau eraill | 0 |
| Gwarediadau | 1.076 |
| Llog a dderbyniwyd | 0.030 |
| Incwm arall | 5.442 |
| **CYFANSWM** | **31,070** |

## lle mae'r arian yn cael ei wario ...

| | |
|---|---|
| Rheoli tai | 7.364 |
| Gwasanaethau eiddo a chynlluniau | 1.845 |
| Cynnal a chadw arferol | 4.076 |
| Cynnal a chadw cynlluniedig a gwaith trwsio mawr | 4.879 |
| Llog a dalwyd | 2.718 |
| Costau eraill | 8.105 |
| **CYFANSWM** | **28,987** |

## Swyddogion Gweithredol



**Andrew Bowden**
Prif Weithredwr y Grŵp



**Katie Clubb**
Rheolwr Gyfarwyddwr Cartrefi Conwy



**Peter Lewis**
Cyfarwyddwr Adnoddau



**Adrian Johnson**
Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol

## Aelodau'r Bwrdd

Gareth Jones - Cadeirydd y Bwrdd
David Shepherd - Is-Gadeirydd y Bwrdd
Bill Hunt - Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Tenantiaid
Helen Pittaway - Cadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Strategol y Grŵp
Kath Coughlin - Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Grŵp
Mark Chadwick - Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Enwebiadau'r Grŵp
Peter Parry - Cadeirydd  Bwrdd Creu Menter
Trevor Henderson
Enid Rowlands
Ruth James

## Aelodau Cyfetholedig

Tara Bold - Bwrdd Gwasanaethau Tenantiaid
Gareth Dwyer - Bwrdd Gwasanaethau Tenantiaid
David Kendal Jones - Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Strategol y Grŵp
Gwyn Llyn Parry - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Grŵp
Stuart Haynes - Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Grŵp

## Sut rydym yn cael ein rheoleiddio

Mae Cartrefi Conwy yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru. Y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yw'r sail y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio i ddwyn Cymdeithasau Tai yn atebol am eu gweithredoedd a sicrhau eu bod yn darparu cartrefi o ansawdd da a gwasanaethau o ansawdd uchel. Cyhoeddwyd adroddiad Barn Reoleiddio a Dyfarniad Hyfywedd Ariannol llawn diwethaf Cartrefi Conwy ar 27 Tachwedd 2019. Gallwch weld copi llawn o'r adroddiad yma:
cartreficonwy.org/wp-content/uploads/Cartrefi-Conwy-Regulatory-Judgement-Report-November-2019-English2.pdf

Yn 2020/21, tra'n aros i'r Fframwaith Rheoleiddio diwygiedig gael ei gwblhau, mae'r tîm Rheoleiddio wedi bod yn cynnal dyfarniadau rheoleiddio interim ar gyfer pob cymdeithas tai yng Nghymru. Aseswyd Cartrefi Conwy fel a ganlyn:

## Cartrefi Conwy – Asesiad Barn Reoleiddiol Dros Dro: Mai 2021

- Llywodraethu (gan gynnwys gwasanaethau tenantiaid) – Safonol (dyfarniad mis Tachwedd 2019 wedi'i gadarnhau)
- Hyfywedd Ariannol - Safonol (dyfarniad mis Tachwedd 2019 wedi'i gadarnhau)

Byddwn yn cael ein hasesu yn erbyn fersiwn newydd (Ionawr 2022) o'r Fframwaith a Safonau Rheoleiddiol ym mis Medi 2022 ac yn disgwyl derbyn ein dyfarniad rheoleiddio nesaf ddiwedd mis Medi/Hydref 2022. Bydd canlyniad hyn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan a thrwy wefan Llywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru - llyw.cymru/rheoleiddio-tai-cymdeithasol



Dilynwch ni ...

0300 124 0040

cartreficonwy.org

Cartrefi Conwy, Morfa Gele,
North Wales Business Park,
Cae Eithin, Abergele LL22 8LJ

